| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **4 Medi 2013** |
| **Awdur yr adroddiad:** | **Pennaeth AD Strategol / Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Archwilio Mewnol AD Strategol - Diweddariad** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad ar y cyd hwn yn darparu diweddariad ar gynnydd o fewn AD strategol i'r Pwyllgor, ynghylch y cynllun gweithredu a gynhwyswyd yn yr adroddiad Archwilio Mewnol o Hydref 2012.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi bod yn monitro cynnydd ar weithredu'r camau gwelliant roedd AD Strategol wedi'u nodi o ganlyniad i'r adolygiad Archwilio Mewnol. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad pellach yn y cyfarfod hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd a wnaed ac yn cytuno:

a) a ydyw'n cael sicrwydd bod AD Strategol yn gwneud digon o welliannau gwasanaeth;

b) a oes angen adroddiad cynnydd pellach, ac os felly, pryd.

## 4. Cefndir

4.1 Adolygodd Archwilio Mewnol feysydd amrywiol o AD Strategol yn ystod 2012/13, gan gyflwyno ei adroddiad yn Hydref 2012. Cododd y cynllun gweithredu yn yr adroddiad 11 o faterion, y nododd AD Strategol 45 cam gyda therfynau amser amrywiol ar gyfer eu gweithredu.

4.2 Pan gymerodd Archwilio Mewnol gamau dilynol i'r cynllun gweithredu yn Chwefror 2013, canfuwyd, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, bod lefel y cynnydd yn "siomedig o araf", felly rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor hwn a ofynnodd i AD Strategol adrodd ynghylch y cynnydd diweddaraf yng Ngorffennaf 2013.

4.3 Yn y cyfarfod hwn, rhoddodd AD Strategol wybod am gynnydd sylweddol, ond awgrymodd y Pennaeth Archwilio Mewnol, er bod camau penodol a ganfuwyd yn y cynllun gweithredu wedi'u cwblhau, nid oedd modd mesur effeithiolrwydd y camau hyn i fynd i'r afael â'r materion yn yr adroddiad Archwilio Mewnol eto.

4.4 Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, fe wnaeth y ddau wasanaeth gyfarfod i drafod y materion a oedd yn weddill, ac fe gytunwyd i gydweithio'n agosach i ddarparu sicrwydd i'r Pwyllgor hwn bod gwelliannau'n cael eu gwneud ac yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn effeithiol.

4.5 Dylai'r Pwyllgor hefyd nodi bod AD Strategol yn mynd drwy gyfnod o newid a gwelliant sylweddol, a bod y camau a drafodwyd yn yr adroddiad hwn yn rhan o gynllun gweithredu gwelliant mwy sy'n cael rheolaeth prosiect drwy ddull rheoli prosiect y Cyngor ar Verto.

## 5. Cynnydd diweddaraf

5.1 Er mwyn eglurder, mae Atodiad 1 yn darparu tabl sy'n dangos y sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer pob un o'r 45 cam a nodwyd gan AD Strategol i fynd i'r afael â chynllun gweithredu Archwilio Mewnol. Mae'r tabl yn dangos:

- y materion i fynd i'r afael â nhw
- y camau a nodwyd i fynd i'r afael â materion
- diweddariad AD Strategol ar y cynnydd diweddaraf
- sylwadau – gan gynnwys barn ynghylch a yw'r camau yn mynd i'r afael â'r mater

5.1 Yn gyffredinol, mae AD Strategol wedi gwneud cynnydd sylweddol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Archwilio Mewnol. Er bod bron i bob cam rŵan wedi'u gweithredu, mewn rhai achosion bydd yn cymryd amser i asesu a yw'r rhain wedi bod yn gwbl effeithiol ac mae rhywfaint o lwyddiant yn dibynnu ar gydymffurfiad â gwasanaethau eraill.

5.2 I ddarparu sicrwydd ychwanegol i aelodau etholedig a rheolwyr, bydd Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad pellach o brosiect gwella AD Strategol yn ystod Ebrill 2014, a fydd yn cynnwys asesiad o effeithiolrwydd rhai o'r camau tymor hirach a nodwyd yn Atodiad 1. Yn arbennig, bydd yr adolygiad yn edrych ar:

- a yw cywirdeb data gweithwyr wedi gwella;
- gweithredu prosesau a threfnau newydd yn llwyddiannus fel rhan o adolygiadau proses Meddwl trwy Systemau;
- cydymffurfiad â pholisïau a threfnau AD o fewn gwasanaethau;
- cywirdeb data a anfonwyd at yr Adran Gyflogau gan AD;
- effeithiolrwydd Desg Gymorth Civica i wella gwasanaeth cwsmer;
- gweithredu'r fframwaith recriwtio newydd yn llwyddiannus;
- datblygu cynlluniau olyniaeth ar gyfer swyddi allweddol mewn gwasanaethau.